DOETHINEB DDUWIOL MEWN BYD GWYDDONOL

Nodyn i'r siaradwr:
Wrth gyflwyno darlun cytbwys o wyddoniaeth a thechnoleg, rhowch bwyslais ar ddoethineb y Beibl. Dangoswch y perygl ysbrydol sydd o ymddiried gormod mewn doethineb ddynol

MAE LLAWER YN DISGWYL I WYDDONIAETH WELLA GOFIDIAU DYN (6 mun.)

Fe ddylai gwyddoniaeth fod o ddiddordeb inni (*g*93 4/8 6-8)

Mae pŵer trydanol, ceir, awyrennau, radio, teledu, cyfrifiaduron, datblygiadau meddygol, oll yn bethau sy'n effeithio ar bawb ohonom, a gwyddoniaeth sy' wedi cynhyrchu bob un

I lawer, cymhwyso gwybodaeth wyddonol sy'n mynd i ddatrys problemau dyn a sicrhau iechyd a diogelwch (*g*98 3/8 3-4)

Ond i eraill, bygwth dod â phroblemau cymdeithasol, trychinebau amgylcheddol, ac ansefydlogrwydd gwleidyddol mae technoleg heb ei ffrwyno

Mae sawl cwestiwn yn codi: Sut mae edrych ar dechnoleg wyddonol mewn ffordd gytbwys? Fedr gwyddoniaeth ddangos inni mewn ffordd ddiogel sut i ddatrys problemau dynoliaeth? Oes gan y Beibl rywbeth i'w ddweud ar hyn?

BUDDION A PHERYGLON GWYDDONIAETH FODERN (15 mun.)

Dyma rai agweddau ar dechnoleg sydd wedi bod o fudd mewn bywyd

Meddygaeth: wedi estyn disgwyliad oes, sicrhau gwell iechyd

Amaethyddiaeth: cynyddu cyflenwadau bwyd, gwella maeth

Cludiant a chyfathrebu: wedi sicrhau teithio'r byd a dosbarthu nwyddau, a gwybodaeth

Mae technoleg fuddiol yn helpu i ehangu gwaith y Deyrnas

Gwelliannau argraffu a chyhoeddi (*w*99 8/15 23-4)

Defnyddio cyfrifiaduron i ysgrifennu, darlunio, a chyfieithu cyhoeddiadau Beiblaidd

Mae ceir, awyrennau, a dulliau cludo modern eraill yn helpu i sicrhau pregethu'r newyddion da drwy'r byd cyfan

Dulliau a defnyddiau adeiladu modern i godi Neuaddau'r Deyrnas

Ond mae 'na derfyn ar fel mae dyn yn medru cymhwyso gwybodaeth wyddonol (*g*93 6/22 21-4; *g*00 12/8 18-19)

Oherwydd anwybodaeth a chamddefnyddio technoleg fodern mae bywyd ac iechyd yn cael eu bygwth

Mae llygredd yn peryglu systemau bywyd ar y ddaear

Mae pentyrru arfau ataliol yn bygwth bywyd dyn ar y ddaear

Wrth roi eu gobaith mewn doethineb ddynol mae rhai wedi cael eu dinistrio'n ysbrydol

Y greadigaeth sy'n cael sylw yn hytrach na'r Creawdwr (Rhuf 1:25)

Mae'n annog rhoi hyder yn yr hyn mae dyn yn medru'i gyflawni

Yn denu pobl i fod yn gyfoethog ym mhethau'r byd yn hytrach nag yn eu perthynas â Duw (1Ioan 2:15-17)

Mae'n ffactor sylweddol yn y dirywiad moesol a'r gofid cymdeithasol

Mae'n hyrwyddo rhoi pwyslais ar yrfâu proffesiynol, yn achosi esgeuluso bywyd y teulu, a'r canlyniad ydi ysgaru a throseddu ar gynnydd

Felly, mae doethineb dynion pechadurus yn "ffolineb," yn ddiffygiol, ac yn golygu dinistr yn aml (1Cor 3: 19, 20)

'Dyw gwybodaeth wyddonol ynddi'i hun ddim yn ffolineb, ond mae dulliau caffael y wybodaeth a'i chymhwyso yn aml yn herio egwyddorion duwiol ac yn niweidiol (*it*-2 1192-3)

O ble, felly, y gall dyn ddisgwyl cael arweiniad cadarn ac amddiffyniad yn y byd gwyddonol sydd ohoni?

DOETHINEB DDUWIOL YN ARWEINIAD CADARN MEWN BYD GWYDDONOL (19 mun.)

Mae doethineb Jehofah yn llawer uwch na doethineb dyn (1Cor 1:19, 20)

Mae ei Air yn ein helpu i weld mor gyfyng ydi doethineb ddynol (*w*00 5/1 8; *g*98 3/8 10-12)

Ei safonau'n sail i flaenoriaethau sy'n realistig

Y Beibl yn rhoi sylw i wir anghenion dynol a phroblemau'r ddaear hefyd

Mae'n rhagweld ffordd o fyw hollol wahanol (Eseia 65:20, 21)

Yr hyn fydd llywodraeth y Deyrnas, gyda Christ yn Frenin arni, yn ei gyflawni—nid technoleg ddynol

Adfer y ddaear a dileu achos tristwch (Dat 11:18)

Darparu digonedd yn y baradwys a diogelwch i bawb

Sicrhau perffeithrwydd y ddynoliaeth ufudd drwy roi sylw i achos wreiddiol afiechyd a marwolaeth (Rhuf 5:18, 19; *g*00 12/8 18-19)

Yn hollol wahanol i wybodaeth wyddonol a thechnolegol dyn, mae'r Ysgrythurau'n rhoi arweiniad ar gyfer ymdopi â'r amgylchiadau sy'n bod 'nawr

Mae 'na safonau moesol yn y Beibl sydd mewn harmoni â natur greëdig dyn, sy'n ei amddiffyn e rhag damcaniaethau bydol (Rhuf 1:26, 27; 1Cor 6:18; Col 2:8)

Yn yr Ysgrythurau mae 'na ganllawiau ar gyfer bywyd y teulu gan roi sylw i anghenion pob aelod

Y gŵr a'r wraig ill dai i roi mynegiant i gariad dwfn, a pharch (Eff 5:22, 28, 33)

Mae'r plant yn dysgu ymddiried yn Jehofah ac ymroi i wasanaethu Duw yn hytrach na cheisio gyrfa ofer mewn trefn sy'n prysur ddirywio (1Cor 15:58; Eff 6:4; *g*98 3/8 19-21)

Mae Gair Duw yn ein gwahodd ni i ddod yn rhan o frawdoliaeth unedig o wir ffrindiau

Mae'r Beibl yn ein dysgu ni i garu Jehofah ac Iesu, ac i garu'n gilydd (1Ioan 4:7-11)

Mae'n hanfodol inni sylweddoli y gall cymdeithasu â rhai nad ydyn' nhw'n 'nabod Duw ddifetha'n gobaith ni (1Cor 15:33, 34)

Medrwn fod yn fodlon â'n darpariaethau presennol drwy gofio y bydd ymroddiad duwiol yn arwain at ddyfodol disglair (1Tim 6:6-8)

Er cymaint ydi apêl hudolus technoleg fodern, wnawn ni ddim gwastraffu'n hamser na'n hadnoddau arni

GADEWCH I DDOETHINEB DDUWIOL EICH AMDDIFFYN AR GYFER DYFODOL LLEWYRCHUS (5 mun.)

Mae llygaid gwir Gristnogion ar y dyfodol—y byd newydd dan Deyrnas Dduw (2Pedr 3:13, 17)

Bydd y Deyrnas yn symud ymaith y gyfundrefn sydd â'i gobaith mewn dyn yn hytrach nag yn Nuw

Fedr doethineb ddynol na thechnoleg wyddonol ddim rhwystro'r newid hwn i'r byd

Gosodwch flaenoriaethau sy'n unol â'ch gobaith (Phil 1:9-11)

Trefnwch eich bywyd yn ôl cyfarwyddiadau Duw (Tit 2:11-14)

Peidiwch â chael eich llygad-dynnu gan yr hyn mae'r byd yn ei gyflawni'n wyddonol

Rhaid meithrin perthynas agos gyda'r Creawdwr cariadus (Micha 6:8)

Cadwch yn agos at gyfundrefn dduwiol Jehofah

Mi fydd bywyd bythol yn rhoi cyfle inni ddatrys rhai o ddirgelion di-ri creadigaeth Duw (Preg 3:11)

Yn y Baradwys bydd gwir wyddoniaeth a doethineb duwiol yn rhoi llawenydd mawr

(Glynwch yn glòs at y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)